



NHS
WALES
GIG
CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Penodi Aelod Annibynnol
(Technoleg Gwybodaeth)**

Dyddiad cau: 30 Hydref 2020



**The Commissioner for
Public Appointments**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cynnwys	Tudalen
Gwneud cais	3
Atodiad A: Rôl yr Aelod Annibynnol	6
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	11
Atodiad C: Y broses ddethol	12

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Gwneud cais

Diolch i chi am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Aelod Annibynnol (Technoleg Gwybodaeth) o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd yn ofynnol i'r Aelod Annibynnol newydd gymryd rhan fel aelod llawn o'r Bwrdd sy'n gosod y strategaeth ar gyfer y sefydliad. Yn ogystal â hyn, bydd disgwyl i chi herio'n adeiladol, cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau gan y Bwrdd a chraffu ar berfformiad y tîm gweithredol o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt. Mae'r Atodiadau sydd yn rhoi manylion rôl yr Aelod Annibynnol a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-e4afb45e8204/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>

Ar ôl cofrestru, bydd modd i chi weld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen i chi gyflwyno'r ffurflen gais a **dwy** ddogfen ategol. Dogfen sy'n ateb y cwestiynau isod yw'r gyntaf, sef '**datganiad personol**'. Ni ddylai'r ddogfen hon fod yn fwy na dwy dudalen A4. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn. **CV** llawn, cyfredol yw'r ail ddogfen y bydd rhaid i chi ei chyflwyno. Dylech lanlwytho'r ddwy ddogfen i'r adran "Rhesymau dros ymgeisio" o'r ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir yn y cwestiynau isod. Chi fydd yn penderfynu sut byddwch am gyflwyno'r wybodaeth. Er hynny, fe ddylech geisio darparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn bodloni pob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl wrth gyflawni canlyniad penodol.

Nodwch hefyd y bydd eich tystiolaeth hefyd yn cael ei hasesu i benderfynu a oes gennych y lefel angenrheidiol o brofiad i weithredu'n effeithiol ar lefel y Bwrdd.

Byddai hefyd o fudd i'r panel dethol pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Yn ogystal â sawl pwynt yr hoffech eu gwneud, dylai'ch datganiad personol gynnwys eich rhesymau dros ymgeisio am y swydd ynghyd ag enghreifftiau manwl o sut y mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn cyd-fynd â'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Ni ddylai eich datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen.

Rhowch grynodedeb o sut yr ydych yn bodloni meini prawf penodol y rôl Technoleg Gwybodaeth.

Disgrifiwch eich dealltwriaeth o faterion a blaenoriaethau iechyd yng Nghymru a sut y byddai'r rhain yn gymwys ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Rhowch enghraifft neu enghreifftiau penodol pan oedd rhaid i chi ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a chyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau cadarn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Disgrifiwch adeg pan wnaethoch ddwyn person ar lefel uwch i gyfrif gan barhau i gynnal perthynas adeiladol ag ef/hi.

Rhowch enghraifft o'ch sgiliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Rhowch enghraifft benodol yn amlinellu eich dull o gyfathrebu ac ymgysylltu â phobl ar bob lefel, y sgiliau a'r dulliau a ddefnyddiwyd gennych a'r canlyniad.

Disgrifiwch enghraifft neu enghreifftiau lle'r ydych wedi cynnwys amrywiol dimau, partneriaid a rhanddeiliaid i wella gwasanaeth neu broses. Amlinellwch eich cyfraniad personol a'r canlyniad.

Curriculum Vitae (CV)

Byddwch cystal â sicrhau bod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Sgiliau Cymraeg

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol. Er hynny, disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi tuag at yr iaith, a dangos arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth gwasanaethau dwyieithog yn y GIG yng Nghymru.

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai fod gan gyrrff cyhoeddus aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir - er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud gwell penderfyniadau. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweiliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Rydym wedi ymrwmo i gyflogaeth a datblygiad gyrfa pobl anabl. Os hoffech gael cyfweiliad gwarantedig, cysylltwch â **Sharon Williams**, e-bost: Sharon.Williams059@llyw.cymru i roi gwybod iddi.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ac rydych angen trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu os hoffech drafod sut byddwn yn eich cefnogi os bydd eich cais yn llwyddiannus, cysylltwch â: Sharon.Williams059@gov.cymru cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	30 Hydref 2020
Llunio rhestr fer:	w/d 9 Tachwedd 2020
Cynnal cyfweiliadau:	w/d 30 Tachwedd 2020
Dyddiad dechrau:	1 Ebrill 2021

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad: Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd bob deufis fel arfer mewn gwahanol leoliadau ar draws y Bwrdd Iechyd, ond oherwydd COVID 19 mae'r rhain yn cael eu cynnal yn rhithwir ar hyn o bryd. Mae gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol amrywiol bwyllgorau hefyd, a chynhelir y cyfarfodydd naill ai bob deufis neu'n chwarterol.

Cydnabyddiaeth ariannol: £15,936 y flwyddyn

Pan fydd gan Aelod o'r Bwrdd hawl i gael amser i ffwrdd o'i swydd bresennol gyda thâl i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd, ni fydd yn derbyn unrhyw dâl ychwanegol am ymgymryd â rôl y Aelod Annibynnol. Bydd yn cael ei drin yr un ffordd â chyflogeion eraill sy'n cael amser i ffwrdd gyda thâl i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus.

Ymrwymiad Amser: Mae swydd Aelod Annibynnol yn gofyn am ymrwymiad tybiedig o 4 (bedwar) diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad, ac mae hynny'n aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.

Cysylltiadau:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

E-bost y Tîm Penodiadau Cyhoeddus: Penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr Aelod Annibynnol, cysylltwch â Charles Janczewski, Caerdydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Ffôn: 029 2183 6011 E-bost: Charles.Janczewski@wales.nhs.uk

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ewch i'w gwefan: <http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/home>

Os oes angen mwy o gymorth arnoch i wneud cais, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus ar Penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Atodiad A

Rôl yr Aelod Annibynnol

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Mae hwn yn gyfle gwych i ddefnyddio eich sgiliau a'ch profiad i gyfrannu at ein gweledigaeth o gyflawni "Cymru iachach, hapusach a thecach".

Rôl a chyfrifoldebau

Bydd Aelodau Annibynnol, ymhlith pethau eraill, yn:-

- Chwarae rhan lawn a gweithgar yn y ffordd y caiff Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ei lywodraethu, o safbwynt clinigol a chorfforaethol. Byddwch yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau, gan gynnig eich barn a herio a chefnogi'r Bwrdd ar faterion allweddol.
- Cyfrannu at waith y Bwrdd yn seiliedig ar eich annibyniaeth, eich profiad yn y gorfennol a'ch gwybodaeth, a'ch gallu i gymryd cam yn ôl o'r gwaith rheoli beunyddiol;
- Cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol a'u derbyn, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig, cadarn a thryloyw
- Dod, ymhen amser, i ddeall y sefydliad yn llawn drwy gymryd rhan weithredol, er mwyn galluogi'r sefydliad i weithredu'n effeithiol.
- Gweithio'n agos gyda chyrrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol eraill a sicrhau bod safbwyntiau cleifion, gofalwyr a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn er mwyn helpu i lywio, datblygu a gwella gwasanaethau;
- Dadansoddi ac adolygu gwybodaeth gymhleth mewn modd beirniadol a chyfrannu at benderfyniadau cadarn;
- Gallu cyfrannu at brosesau 'llywodraethu ac ariannu' y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau ei bod yn agored ac yn onest yn ei gwaith drwy gyfrannu'n llawn at y broses o wneud penderfyniadau.

Manyleb y Person

Mae'n **hanfodol** bod Aelodau Annibynnol yn dangos y priodoleddau canlynol:-

Gwybodaeth a Phrofiad

- Dealltwriaeth o faterion iechyd a blaenoriaethau yn ardal y Bwrdd Iechyd a'r gallu i ddeall rôl a gwaith y Bwrdd;
- Y gallu i ddwyn yr aelodau gweithredol i gyfrif am berfformiad, gan gynnwys perthynas adeiladol ar yr un pryd;
- Y gallu i ddarparu safbwynt gwybodus, diduedd a chytbwys ar amrywiaeth o faterion sensitif a chymhleth;
- Dealltwriaeth eang o'r gofynion o ran llywodraethu gwybodaeth y mae eu hangen i gydymffurfio â deddfwriaeth, ee Y Ddeddf Diogelu Data.

Priodoleddau a Sgiliau Personol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Bydd angen i chi allu dangos y canlynol hefyd:-

- Y gallu i "Roi Cleifion yn Gyntaf".
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol eraill.
- Y gallu i werthfawrogi a pharchu eraill.
- Y gallu i gyfathrebu'n agored ac yn onest.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid i chi allu dangos bod gennych y priodoleddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer cael eich penodi.

Meini Prawf Penodol i'r Rôl

Bydd angen i chi ddangos:-

- Ymwybyddiaeth o'r angen i werthuso achosion busnes ym maes buddsoddi cyfalaf;
- Dealltwriaeth o egwyddorion rheoli prosiectau yn effeithiol;
- Dealltwriaeth o egwyddorion rheolaeth gadarn ar ystadau a'i heffaith ar ddarparu gofal iechyd yn effeithlon; a
- Ymwybyddiaeth o'r agenda ar gyfer cynaliadwyedd/newid yn yr hinsawdd.

Ymrwymiad amser

Mae swydd Aelod Annibynnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gofyn am ymrwymiad tybiannol o bedwar (4) diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad a disgwylir y bydd yn uwch na'r isafswm gofynnol.

Y Gymraeg

Mae sgiliau Cymraeg yn 'ddymunol' ar gyfer y swydd hon. Disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi at yr iaith a dangos arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn y GIG yng Nghymru.

Cydnabyddiaeth ariannol

£15,936 y flwyddyn. Lle caniateir i Aelod o'r Bwrdd gael amser i ffwrdd o'i swydd bresennol gyda thâl i fynyachu cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd, ni chaiff unrhyw dâl ychwanegol am ymgymryd â rôl yr Aelod Annibynnol. Byddant yn cael ei drin yr un ffordd â chyflogeion eraill sy'n cael amser i ffwrdd gyda thâl i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus.

Treuliau

Bydd gennych hawl i gael ad-daliad, lle bo hynny'n briodol, yn erbyn derbynebaw ar gyfer costau teithio a chynhaliadau a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd. Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis o fynd i gostau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Gellir talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill hefyd, os cyflwynir derbynebaw, yng nghyd-destun costau ychwanegol eraill a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd.

Hyd y penodiad

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n pennu hyd y penodiad, a fydd am gyfnod o hyd at bedair (4) blynedd yn y lle cyntaf. Er hynny, bydd hyn yn

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

amodol ar y ffaith bod yr Aelod Annibynnol yn parhau'n gymwys drwy gydol y cyfnod hwn. Gall unigolyn fod yn aelod o'r Bwrdd am uchafswm o wyth (8) mlynedd.

Atebolrwydd

Penodir yr aelodau gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a byddant yn atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drwy'r Cadeirydd am gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad.

Cymorth i Aelodau Anabl

Lle bo hynny'n briodol, caiff pob addasiad rhesymol ei wneud er mwyn i'r aelodau fedru cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais

Bydd unigolyn yn anghymwys i gael ei benodi os bydd:-

- a. wedi ei gael yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysydd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy;
- b. wedi ei wneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i gredydwr
- c. wedi ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd;
- d. yn unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am beidio â mynychu cyfarfodydd neu am beidio â datgelu buddiant ariannol;
- e. yn weithwr cyflogedig mewn Ymddiriedolaeth neu Fwrdd Iechyd.

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio ar eich cais yn yr adran Gwrthdaro rhwng Buddiannau o'r ffurflen gais.

Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Yn benodol, rhaid i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod yn hysbys ar ôl iddynt gael eu penodi.

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd fod aelodau Byrddau Iechyd Lleol wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.

Gwrthdaro Buddiannau

Dylech nodi'n arbennig bod gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelodau annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn y Bwrdd.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Os penodir hwy, bydd angen i Aelodau Annibynnol ddatgan y buddiannau hyn a cheisio cadarnhad gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro nad oes unrhyw wrthdaro'n codi a'i bod yn briodol iddynt barhau'n aelod o'r bwrdd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i Aelodau Annibynnol gadw at safonau llywodraethiant da a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru. Maent yn seiliedig ar Egwyddorion Llywodraeth Cymru o Lywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd ynghyd â "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan".

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cefndir

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn un o sefydliadau mwyaf y GIG yn Ewrop. Rydym yn cyflogi rhyw 14,500 o staff, ac yn gwario rhyw £1.4 biliwn y flwyddyn ar ddarparu gwasanaethau iechyd a llesiant i boblogaeth o ryw 472,400 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Rydym hefyd yn gwasanaethu poblogaeth ehangach ar draws y De a'r Canolbarth ar gyfer ystod o feysydd arbenigol.

Ein gweledigaeth yw creu cymuned lle nad yw'ch cyfle i fyw bywyd yn iach yn dibynnu ar bwy ydych chi na ble rydych yn byw.

Fel Bwrdd Iechyd Addysgu mae gennym gysylltiadau agos â'r sector Prifysgolion. Gyda'n gilydd rydym yn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan weithio ar yr un pryd ar ymchwil sy'n anelu at ddod o hyd i ffyrdd o wella clefydau.

Ein Gwasanaethau

- **Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol:** Practisau meddygon teulu, deintyddion, fferylliaeth ac optometreg a lluo o wasanaethau therapi cymunedol trwy dimau iechyd cymuned.
- **Gwasanaethau aciwt trwy ein dau brif Ysbyty Athrofaol a'r Ysbyty i Blant:** darparu ystod eang o driniaethau ac ymyriadau meddygol a llawfeddygol.
- **Iechyd y cyhoedd:** Rydym yn cefnogi cymunedau Caerdydd a'r Fro gydag ystod o gyngor a chanllawiau ym maes iechyd y cyhoedd ac iechyd ataliol.
- **Canolfan drydyddol:** Rydym hefyd yn gwasanaethu poblogaeth ehangach ledled Cymru ac yn aml y DU â thriniaeth arbenigol a gwasanaethau cymhleth megis niwrolawfeddygaeth a gwasanaethau cardiaidd.

Mae rôl aelod y Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:-

- **Strategaeth** – cyfrannu at ddatblygu strategol a gwneud penderfyniadau
- **Perfformiad** – sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn ogystal â thîm effeithiol yn gweithredu ar lefel uchaf y sefydliad. Helpu i egluro pa benderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Bwrdd ac yna sicrhau bod y gweddill yn cael eu dirprwyo'n glir a dwyn y rheolwyr i gyfrif am eu perfformiad o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt trwy herio a chraffu'n bwrpasol, a monitro'r gwaith o adrodd am berfformiad.
- **Risg** – sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gywir, a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg a sicrwydd yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn
- **Ymddygiad** – cynnal y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad. Dylai aelodau'r bwrdd ddangos trwy eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu chyfrifoldebau tuag at ddinasyddion, y sefydliad a'i randdeiliaid

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel dethol yn asesu eich cais, hynny yw eich CV a'ch datganiad personol, i benderfynu a ydych chi'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl, ac a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn eich CV a'ch datganiad personol i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a'r cwestiynau y gofynnwyd ichi eu hateb fel rhan o'ch datganiad personol.

Bydd y panel dethol yn cynnwys Charles Janczewski, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Stephanie Sampson Llywodraeth Cymru a *Yr Athro Ceri Phillips* fydd yn Aelod Annibynnol o'r Panel ar gyfer yr ymarfer hwn.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech gofio, yn yr achos hwn, efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel dethol cyfan.

Rydym yn rhag-weld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod yr wythnos yn dechrau **09 Tachwedd 2020** pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad, a fydd yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau **30 Tachwedd 2020**.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf yn y datganiad personol fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac os nad ydy dyddiad y cyfweiliad wedi'i ddarparu eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch ddod i'r cyfweiliad ar y diwrnod hwnnw, fe wnawn ein gorau i'w aildrefnu ond efallai na fydd hynny'n bosib oherwydd cyfyngiadau'r amserlen ar gyfer penodi neu am na fydd y panel dethol ar gael.

Byddwch yn cael neges e-bost o'r system Penodi i roi gwybod ichi a ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf penodedig ar gyfer y rôl. Efallai y bydd y broses benodi a'r cyfweiliad yn cynnwys asesiadau pellach o addasrwydd ar gyfer y rolau. Bydd y rhai sy'n cael eu gwahodd am gyfweiliad yn cael rhagor o wybodaeth ymlaen llaw.

Bydd ymgeiswyr sy'n 'benodadwy' ym marn y panel yn cael eu hargymell i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gallai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os bydd yn dewis gwneud hynny, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwloch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod yn rhaid wrth gryn ymdrech ac amser i ymgeisio am swyddi a bod cael adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth am eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'ch cais, cysylltwch â Penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Mae'r Comisiynydd yn rheoleiddio ac yn monitro penodiadau i gyrrff cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau yn deg, yn agored ac yn dryloyw ac yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod. Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd a'r Cod Ymarfer ar gael o <http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk>

Os nad ydych yn hollol fodlon

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â PublicAppointments@llyw.cymru.

Os ydych yn dal yn bryderus ar ôl cael ymateb cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Cysylltwch â:

Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
1 Horse Guards Road
Llundain
SW1A 2HQ
Ffôn: 0207 271 0849
E-bost: publicappointments@csc.gsi.gov.uk